

Llais
Ystafell 5, Llawr 1
Tŷ Myrddin
Heol Yr Hen Orsaf
Caerfyrddin SA31 1BT



Eich llais mewn iechyd | Your voice in health
a gofal cymdeithasol | and social care

Llais
Ystafell 5 Llawr1
Tŷ Myrddin
Hen Ffordd yr Orsaf
Caerfyrddin SA31 1BT

25/08/23

Annwyl Steve,

Rydym yn ysgrifennu i nodi ein hargymhellion yn dilyn ymgynghoriad cyhoeddus yn ymwneud â gwasanaethau pediatrig ac i ddarparu sylwebaeth gytbwys ar y materion a'r themâu a nodwyd.

Byddwn yn parhau i gynrychioli barn y cyhoedd drwy gamau nesaf y rhaglen hon ac yn parhau i groesawu sylwadau a barn y cyhoedd wrth i ni wneud hynny.

Mynychodd Llais bob un o'r digwyddiadau galw heibio a digwyddiadau ar-lein ymgynghori cyhoeddus. Rydym hefyd wedi monitro sylwadau cyfryngau cymdeithasol lle bo hynny'n bosibl. Roeddem yn teimlo bod dull y Bwrdd Iechyd yn dda iawn a bod cynnwys y cyhoedd yng nghamau cynnar y dylunio cyn ymgynghori yn ystyrlon.

Roedd digwyddiadau cyhoeddus yn groesawgar ac roedd y staff a oedd yn bresennol i gefnogi a thrafod yr opsiynau yn rhagorol ar y cyfan. Mewn ymgynghoriadau blaenorol rydym wedi canmol y Bwrdd Iechyd am sicrhau bod uwch staff yn bresennol i drafod gweledigaeth strategol ond yn yr achos hwn rydym hefyd yn canmol cynnwys clinigwyr rheng flaen a oedd yn gallu tywys pobl drwy fanylion pam roedd gwasanaethau wedi newid a sut y bydd yr opsiynau yn effeithio ar wasanaethau pediatrig lleol. Rydym yn croesawu'r hyblygrwydd a'r ymrwymiad a ddangoswyd wrth ddarparu digwyddiadau ychwanegol lle gofynnwyd amdanynt.

Cadeirydd I : **Yr Athro Medwin Hughes, DL**

Prif Weithredwr Dros Dro I **Prif Weithredwr Dros Dro: Alyson Thomas**

Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): **Donna Coleman**

E-bost I E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org

Ffôn I Ffôn: 01646 697610

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg. Os byddwch yn ysgrifennu atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Rydym yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac yn Saesneg. Os ysgrifennwch atom yn Gymraeg, byddwn yn ateb yn Gymraeg. Ni fydd hyn yn arwain at oedi wrth ymateb i'ch gohebiaeth.

Gan gydnabod hyn, roedd yn dal yn amlwg bod cyfranogiad mewn digwyddiadau lleol yn eithaf cyfyngedig ar y cyfan o'i gymharu ag ymgysylltiad cyhoeddus blaenorol ynghylch gwasanaethau pediatrig.

Ni all Llais dynnu sylw at opsiwn a ffefrir, yn rhannol oherwydd bod yn rhaid i ni gynrychioli barn pawb ond hefyd oherwydd ei bod yn aml yn anodd dirnad barn glir ymhlith y cyhoedd yn enwedig gan fod yr opsiynau yn fwy cynnil yn eu cyfansoddiad. Ar y cyfan, roedd yn ymddangos ein bod yn gweld mwy o gefnogaeth i Opsiwn 3 ar y sail bod pobl yn teimlo bod hyn yn dychwelyd yr ehangder mwyaf o wasanaeth yn Llwynhelyg. Nid ydym wedi gweld unrhyw ymatebion ysgrifenedig i'r ymgynghoriad gan y cyhoedd a fyddai'n egluro opsiwn a ffafrir ar adeg ysgrifennu'r ymateb hwn.

Themâu sy'n dod drwy'r digwyddiadau

Gwasanaethau'n nes at adref

Y thema cyffredinol gan deuluoedd a welsom yn Sir Benfro oedd yr ymdeimlad o bellter oddi wrth wasanaethau, ar ôl newidiadau dros dro diweddar i PACU ac o'r newidiadau gwreiddiol i wasanaethau menywod a phlant yn 2014.

Mae llawer o bobl wedi disgrifio anghyfleustra ac anesmwythyd ynghylch y diffyg gwasanaeth canfyddedig yn Sir Benfro i ni yn ystod y blynyddoedd diwethaf. Mae cludiant yn bryder rheolaidd, yn enwedig gan fod rhai teuluoedd wedi gorfod dibynnu ar eraill i helpu i gael plant sâl i'r ysbyty am ofal heb ei drefnu, yn enwedig os nad oes car ar gael mewn rhai cartrefi neu pan nad yw'r car ar gael oherwydd partner sy'n gweithio. Ymhlith y rhai yr ydym wedi siarad â nhw yn y gorffennol a'r rhai a fynychodd ddigwyddiadau ymgynghori, mae hyn yn parhau i fod yn bryder dilys a heriol.

Rydyn ni hefyd wedi clywed gan bobl sydd weithiau'n gweld gofal pediatrig heb ei drefnu yn brysur iawn ac yn anghyfforddus yng Nglangwili. Pan oedd PACU yn gweithredu yn Llwynhelyg fe siaradon ni â theuluoedd a ddywedodd wrthym faint roedden nhw'n ei werthfawrogi fel gwasanaeth.

Argymhelliad 1

Gwelsom fod opsiwn 2 a 3 yn fwyaf poblogaidd gan fod y rhain yn dod â gwasanaethau yn ôl i bobl yn Sir Benfro sy'n teimlo'n ynysig yn ddaearyddol o'r

Cadeirydd I: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Prif Weithredwr Dros Dro: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Ffôn: 01646 697610

system bresennol. Dangosodd ymweliadau â PACU ei fod yn cael ei werthfawrogi. Rydym yn teimlo y dylid cymhwyso gweledigaeth "gofal yn agosach at adref" y Bwrdd Iechyd yma lle mae'n ddiogel yn glinigol i wneud hynny.

Ansicrwydd a phenderfyniadau ar gyfer teuluoedd

Wrth siarad â theuluoedd, un o nodweddion y system ar ôl 2014 oedd cymhlethdod o ran ble i fynd â phlentyn. Yn ogystal, nid oedd cyngor gan rai clinigwyr gofal sylfaenol bob amser yn gywir a gallai arwain at ddryswch a theithiau a wastraffwyd.

Mae'n amlwg, pa bynnag opsiwn y mae'r Bwrdd Iechyd yn ei ffafrio, mae'n rhaid cael arweiniad clir i deuluoedd (yn enwedig yn Sir Benfro) ynghylch ble i fynd a dylai pob meddyg teulu gan gynnwys locwm fod yn glir ynghylch pa leoliad sydd fwyaf priodol i deithio iddo. Ni ellir disgwyl i rieni sy'n poeni am blentyn gwael wybod yn union ble mae'r lleoliad cywir. Roedd gwybodaeth gyhoeddus a gynhyrchwyd yn ystod cyfnod Covid yn ddefnyddiol gan ei bod yn cael ei chylchredeg yn eang a bydd angen mabwysiadu'r dull hwnnw eto. Byddai Llais yn hapus i weithio gyda'r Bwrdd Iechyd i sicrhau bod cynlluniau cyfathrebu'n effeithiol ac yn glir.

Argymhelliad 2

Bydd cyfathrebu clir gyda'r cyhoedd yn hanfodol ar ôl i'r Bwrdd Iechyd benderfynu pa opsiwn i'w ddilyn. Er y bydd pobl Sir Benfro yn croesawu dychwelyd rhai gwasanaethau, mae'r darlun o bediatreg yn parhau i fod ychydig yn dameidiog ar draws y sefydliad ar wahanol adegau o'r dydd neu ddyddiau o'r wythnos gydag anghenion clinigol gwahanol. Mae pobl yn haeddu'r darlun clir iaf posibl o sut a phryd i gael mynediad at wasanaethau.

Casgliad

Rydym yn ddiolchgar i'r Bwrdd Iechyd am ddatblygu proses ofalus a chynhwysol o ran datblygu gwasanaethau pediatrig dros y 12 mis diwethaf. Mae'n parhau i fod yn fater dadleuol yn enwedig yn Sir Benfro ond gyda theuluoedd sydd â phryderon gwirioneddol a dealladwy ynghylch rhwyddineb mynediad wrth wraidd y mater.

Cadeirydd I: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Prif Weithredwr Dros Dro: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Ffôn: 01646 697610

Roeddem yn teimlo bod empathi a pharch tuag at hyn wrth drafod gwasanaethau'r dyfodol. Canfuom fod yr ymgynghoriad wedi'i ddylunio'n dda a'i weithredu'n dda gydag ymrwymiad gwirioneddol i wrando.

Roedd yn amlwg y byddai pobl yn gwerthfawrogi dychwelyd gwasanaethau i ysbyty Llwynhelyg gan dderbyn bod lefelau cyn 2014 yn amhosibl ar hyn o bryd.

Rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r Bwrdd Iechyd wrth iddo geisio gweithredu canlyniad yr ymgynghoriad hwn.

Yn gywir



Donna Coleman
Cyfarwyddwraig Rhanbarthol Llais Gorllewin Cymru

Cadeirydd I: Yr Athro Medwin Hughes, DL
Prif Weithredwr Dros Dro I Prif Weithredwr Dros Dro: Alyson Thomas
Cyfarwyddwr Rhanbarthol (Llais Gorllewin Cymru): Donna Coleman
E-bost I E-bost: westwalesenquiries@llaiscymru.org
Ffôn I Ffôn: 01646 697610